# Adolygiad o'r System Ddeisebau

## Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Mae'r papur briffio hwn yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a dderbyniodd y Pwyllgor i'w ymgynghoriad ar ddyfodol y system ddeisebau gan gyn ddeisebwyr a rhanddeiliaid.

Bydd briff ar wahân yn rhoi crynodeb o ganlyniadau'r arolwg ar-lein. Roedd yr arolwg ar-lein yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol.

### 1. Ymatebion gan ddeisebwyr

Derbyniodd y Pwyllgor 24 o ymatebion gan ddeisebwyr. Nid oedd pob ymateb yn mynd i'r afael â phob un o'r cwestiynau ac nid oedd pob un o'r ymatebion i gwestiynau unigol yn rhoi ateb clir. Mewn rhai achosion, ni aethpwyd i'r afael â chwestiynau yn uniongyrchol o gwbl. Ar ben hynny, mewn rhai achosion, nid oedd bob amser yn glir a oedd y deisebydd yn cyfeirio at y Cynulliad Cenedlaethol neu at Lywodraeth Cymru.

Cyflwynir crynodeb o'r ymatebion isod, ynghyd â chwestiynau ymgynghori.

1.1 Ar hyn o bryd mae'r Pwyllgor Deisebau yn ystyried deisebau ar faterion y mae'r Cynulliad yn gyfrifol amdanynt yn unig. A ddylai hyn barhau, neu a ddylai'r Pwyllgor ystyried deisebau ar faterion nad oes gan y Cynulliad gyfrifoldeb uniongyrchol drostynt? Os felly, sut y gallai'r Pwyllgor weithredu o ran ymdrin â deisebau o'r math hwnnw?

Roedd 20 o ymatebion yn mynd i'r afael â'r cwestiwn hwn yn uniongyrchol. Roeddent yn cyfleu barn gymysg. Roedd saith ymateb yn glir eu bod yn cefnogi'r trefniadau presennol o ystyried deisebau ar faterion datganoledig yn unig. Cyfeiriodd rhai at adnoddau cyfyngedig y Pwyllgor, a dywedodd un ymateb nad yw'n gwneud unrhyw synnwyr i ehangu ei gylch gwaith. Awgrymodd un arall bod y meysydd cyfrifoldeb datganoledig yn faes cyfrifoldeb digon mawr.

Roedd deg o ymatebion o blaid y Pwyllgor yn derbyn deisebau ar feysydd sydd heb eu datganoli. Awgrymodd nifer o'r ymatebion y gallai'r Pwyllgor wedyn godi hyn gyda'r corff perthnasol yn y DU. Argymhellodd ymateb arall dderbyn deisebau ble byddai penderfyniadau



Jonathan Baxter, estyniad 6295, jonathan.baxter@cynulliad.cymru

Rhif Cyfeirnod y Gwasanaeth Ymchwil: 15/2051

mewn rhannau eraill o'r DU yn effeithio ar Gymru. Yr enghraifft a roddwyd oedd trin cleifion o Gymru mewn ysbytai yn Lloegr.

Teimlai un deisebydd mai aelodau'r Pwyllgor ddylai wneud penderfyniadau ar dderbynioldeb yn hytrach na staff y Pwyllgor. Awgrymwyd mai'r argraff a roddir yw bod y staff yn gweithredu fel gwarchodwyr.

Awgrymodd ymateb arall, a oedd yn cefnogi derbyn deisebau ar feysydd sydd heb eu datganoli, y byddai hyn yn darparu fforwm ar gyfer barn gyhoeddus. Roedd yn teimlo y byddai hyn yn helpu'r rheiny sy'n ffurfio polisi.

1.2 Nid yw'r Cynulliad yn derbyn deisebau os ydynt ynglŷn â phethau y mae awdurdodau lleol unigol yn gyfrifol am benderfynu yn eu cylch, neu pan fydd gweithdrefn gyfreithiol eisoes ar gyfer gwneud penderfyniadau (e.e. penderfyniadau cynllunio). A ydych yn cytuno â'r dull gweithredu hwn?

Roedd 20 o ymatebion yn mynd i'r afael â'r cwestiwn hwn. Nid oedd wyth yn cytuno â'r dull presennol. Awgrymodd un o'r deisebwyr hynny y gallai'r ffaith bod deiseb wedi cael ei chodi gyda'r Cynulliad ddangos methaint mewn democratiaeth leol ac y gallai'r broses ddeisebau wneud cynghorau lleol yn fwy atebol. Awgrymodd un arall, pan fydd awdurdod lleol wedi cael cyfle i ddatrys mater, ond wedi methu â gwneud hynny, y dylai fod yn bosibl codi'r mater gyda'r Pwyllgor. Awgrymwyd hefyd y gallai caniatáu deisebau ar faterion o fewn rheolaeth awdurdodau lleol atal penderfyniadau annemocrataidd rhag cael eu gwneud ar lefel leol.

O'r ymatebion hynny a oedd yn cefnogi'r trefniadau presennol (wyth), rhoddwyd nifer o resymau. Roedd ychydig o'r gefnogaeth honno yn ansoddol. Awgrymodd un ei bod yn fwy cost effeithiol i ganolbwyntio ar ddeisebau y mae'r Cynulliad yn gyfrifol amdanynt. Awgrymodd un arall y gallai'r Pwyllgor wynebu beirniadaeth am ddiffyg canlyniadau cadarnhaol drwy dderbyn deisebau dros faterion nad oedd ganddo unrhyw bwerau drostynt. Roedd un ymateb, tra'n cefnogi dull presennol y Pwyllgor, yn awgrymu y dylid cael rhywfaint o atebolrwydd i'r Pwyllgor lle mae pryderon am weithrediad cywir, cyfreithlon a democrataidd llywodraeth leol.

Roedd un ymateb, a oedd yn aneglur o ran a oedd yn cefnogi'r trefniadau presennol, yn awgrymu y gallai hyblygrwydd i'r Pwyllgor fod yn beth da fel bod llygad gwrthrychol arall.

Awgrymodd ymateb arall nad yw bob amser yn glir beth oedd cyfrifoldeb llywodraeth leol, gan nodi rhai materion cynllunio fel enghraifft. Mae'n galw, felly, ar graffu'n ofalus ar bob deiseb, a dim ond materion lleol dilys i gael eu cyflwyno i awdurdodau lleol. Roedd yr ymateb hwnnw o blaid pwyllgorau deisebau ar lefel leol, sy'n rhywbeth sydd eisoes yn ymddangos fel pe bai'n digwydd ac a gaiff sylw yn yr ymatebion isod gan randdeiliaid.



Jonathan Baxter, estyniad 6295, jonathan.baxter@cynulliad.cymru
Rhif Cyfeirnod y Gwasanaeth Ymchwil: 15/2051

1.3 Mae'r Cynulliad yn derbyn deisebau am bethau y mae cyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru yn gyfrifol am benderfynu yn eu cylch (e.e. Byrddau Iechyd Lleol a'r penderfyniadau a wnânt am wasanaethau iechyd lleol). A ydych yn cytuno â'r dull gweithredu hwn?

Mae mwyafrif clir (16) yn cefnogi'r trefniadau presennol. Rhoddodd y deisebwyr amrywiaeth o resymau, ond roedd llawer yn cyfeirio at y cyfrifoldeb cyffredinol y dylai'r Cynulliad ei gael dros gyrff cyhoeddus yng Nghymru, a chyfreithlondeb democrataidd y Cynulliad sy'n rhoi awdurdod iddo ystyried y materion hyn.

Roedd un ymateb, a oedd yn aneglur ei farn, yn awgrymu y gallai deisebwyr mewn rhai achosion ddatrys materion trwy ddeialog gyda'r corff perthnasol.

1.4 Mae angen deg o lofnodion i ddeiseb fod yn dderbyniol. Fodd bynnag, mae deisebau a gyflwynir gan sefydliadau, cwmnïau, cymdeithasau neu grwpiau anffurfiol yn gofyn am ddim ond un llofnod. Beth yw eich barn am y nifer isaf o lofnodion? A ddylai'r un nifer fod yn berthnasol ar gyfer pob deiseb?

Roedd safbwyntiau cymysg ar y cwestiwn hwn.

Awgrymodd nifer o ddeisebwyr gynyddu isafswm y llofnodion angenrheidiol, ond barn y lleiafrif yw hon. O'r pedwar ymateb a oedd yn amlwg yn cefnogi cynyddu'r trothwy, y nifer uchaf a awgrymwyd oedd 300 i unigolion, neu 2,000 i sefydliadau. Roedd y farn yn erbyn codi'r nifer lleiaf o lofnodion yn cynnwys ystyried pa mor bwysig yw'r ddeiseb, yn hytrach na nifer y bobl sy'n ei chefnogi. Holodd un ymateb pa mor wybodus oedd llofnodwyr rhai o'r deisebau, yn enwedig gan ei bod yn hawdd dechrau deiseb ar-lein a chasglu nifer fawr o gefnogwyr. Un pwynt a wnaeth nifer o ymatebwyr oedd pwysigrwydd gallu defnyddio'r system ddeisebau, yn hytrach na chyflwyno mwy o rwystrau.

Teimlai naw ymateb y dylai nifer lleiaf y llofnodion ar gyfer sefydliadau fod yr un fath ag ar gyfer deisebau unigol.

1.5 Rhowch eich barn ar bwy a ddylai fod yn gallu cyflwyno a llofnodi deisebau i ni. A ddylai fod unrhyw gyfyngiad o ran preswyliaeth neu oed?

Roedd rhanniad cyfartal rhwng y deisebwyr ynghylch a ddylid cael cyfyngiad preswyliad ar gyflwyno ac arwyddo deisebau. Dywedodd nifer o ddeisebwyr bod materion sy'n ymddangos fel pe baent yn effeithio ar Gymru yn unig, yn gallu cael effaith ehangach mewn gwirionedd. Er enghraifft, ar y rhai sy'n ymweld â Chymru. Awgrymodd ymateb arall y dylai'r Pwyllgor ei hun benderfynu ar deilyngdod y ddeiseb ac ansawdd y dadleuon a wneir gan y deisebwyr, yn hytrach na gosod meini prawf cymhwyster pellach.



Jonathan Baxter, estyniad 6295, jonathan.baxter@cynulliad.cymru

O'r rhai a gynigiodd gosod cyfyngiadau, roedd llawer yn awgrymu mai dim ond trigolion Cymru ddylai fod yn gymwys, tra bod eraill yn fodlon iddo gael ei gyfyngu i drigolion y DU. Awgrymodd un deisebydd, er ei fod yn cefnogi cyfyngu ar yr hawl i gyflwyno deiseb i drigolion Cymru, dylai unrhyw un fod yn gallu arwyddo deiseb.

Cefnogaeth leiafrif yn unig a gafwyd ar gyfer gosod unrhyw gyfyngiadau oedran.

### 1.6 Ni chaniateir i Aelodau'r Cynulliad gyflwyno deisebau. A ddylai'r un rheol fod yn berthnasol i staff sy'n gweithio'n uniongyrchol i Aelodau'r Cynulliad a staff sy'n gweithio i Gynulliad Cenedlaethol Cymru?

Teimlai mwyafrif clir o'r rhai a fynegodd farn ar y cwestiwn hwn y dylai pobl sy'n gweithio i Aelodau'r Cynulliad a staff y Cynulliad Cenedlaethol allu cyflwyno deisebau.

Rhai o'r rhesymau a roddwyd gan y rhai a oedd yn gwrthwynebu'r hawl hwn i staff oedd y byddai gan staff fodd o ganfod gwybodaeth fewnol a gwrthdaro buddiannau posibl.

### 1.7 Gall pleidiau gwleidyddol drefnu a chyflwyno deisebau ar hyn o bryd. Oes gennych farn ar hyn?

Roedd mwyafrif clir yn cefnogi cynnal y drefn bresennol. Dywedodd llawer y dylai pleidiau gwleidyddol gael yr un hawliau â grwpiau eraill. Awgrymodd un deisebydd y gallai gosod cyfyngiadau ar bleidiau gwleidyddol arwain, mewn gwirionedd, at gyfyngiadau pellach ar grwpiau eraill.

Cafwyd nifer o sylwadau bod gan bleidiau gwleidyddol ffyrdd eraill o ddylanwadu ar y broses ddemocrataidd, gydag un deisebydd yn awgrymu, os yw deisebau yn dal i gael eu derbyn oddi wrth bleidiau gwleidyddol, y gallai fod rheolau arbennig o ran derbynioldeb – cyfeiriwyd at sut y mae Cynulliad Gogledd Iwerddon yn gweithredu.

### 1.8 Pan fydd deiseb yn cael ei chyflwyno, gall mai hwnnw yw'r tro cyntaf i'r mater gael ei godi gyda'r Cynulliad neu Lywodraeth Cymru. Mewn rhai deddfwrfeydd eraill, rhaid i ddeisebwyr ddangos eu bod wedi ceisio datrys y mater mewn ffordd arall yn gyntaf, cyn cyflwyno deiseb. Beth yw eich barn ar hyn?

Dywedodd un deisebydd y dylai'r Pwyllgor fod yn llwybr dewis olaf, ond teimlai'r mwyafrif na ddylai fod cyfyngiadau pellach neu rwystrau gweithdrefnol o ran cyflwyno deisebau. Dywedodd un ymateb y byddai angen ystyried y mater hwn ar sail achos wrth achos, o bosibl yn achosi mwy o fiwrocratiaeth. Awgrymodd un ymateb y dylai deisebau fod yn gam cyntaf tuag at godi materion – mae'n ffordd unigryw o gyfathrebu â rhai sy'n gwneud penderfyniadau. Fodd bynnag, awgrymwyd hefyd gan ddeisebydd, a oedd yn gyffredinol yn erbyn cyfyngiadau, y gellid cynghori deisebwyr i gysylltu â'r corff perthnasol i ddatrys eu mater, lle bo hyn yn bosibl.



Jonathan Baxter, estyniad 6295, jonathan.baxter@cynulliad.cymru 

1.9 Er mai un ddeiseb yn unig ar yr un pwnc a all fod o dan ystyriaeth ar unrhyw adeg, nid oes cyfyngiad o ran yr un person yn cyflwyno nifer o wahanol ddeisebau ar yr un pryd. Beth yw eich barn ar hyn? A ddylid cael unrhyw gyfyngiad ar nifer y deisebau y gall unigolyn eu cael o dan ystyriaeth ar un adeg, yn enwedig os yw hyn yn cael ei wneud am resymau blinderus neu ddibwys?

Roedd safbwyntiau cymysg ar y cwestiwn hwn. Roedd gan lawer o bobl rywfaint o gydymdeimlad ag atal / mynd i'r afael â deisebau blinderus, ond roedd teimlad, hefyd, ei bod yn bwysig peidio â rhwystro deisebau a oedd yn dderbyniol, fel arall, rhag cael eu trafod gan y Pwyllgor.

Tynnodd un ymateb sylw at faint o amser mae awdurdodau lleol yn ei dreulio yn ymdrin â nifer fach o achwynwyr afresymol y mae eu gweithredoedd yn gwastraffu llawer iawn o amser ac adnoddau a fyddai, fel arall, yn cael eu cyfeirio at at wasanaethau i aelodau eraill o'r cyhoedd.

Dim ond lleiafrif o'r ymatebion a awgrymodd gyfyngu ar nifer y deisebau 'byw' y gallai unrhyw un unigolyn eu cyflwyno.

1.10 Gan ystyried y cyfyngiadau a nodir uchod, a ydych yn credu bod angen unrhyw newidiadau i'r ffordd y mae'r Pwyllgor yn ymdrin â deisebau? Pa newidiadau yr hoffech eu gweld?

Roedd amrywiaeth eang o sylwadau mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd rhai yn ailadrodd pwyntiau a wnaed yn gynharach, fel cyfeirio deisebwyr at gyrff mwy priodol, a hidlo deisebau blinderus neu "ddibwys" neu hyd yn oed ddarparu (neu gyfeirio) at wasanaethau cyfryngu. Awgrymodd un ymateb y dylid blaenoriaethu deisebau mewn rhyw ffordd.

Roedd llawer o ymatebion yn cydnabod y cyfyngiadau a roddwyd ar y Pwyllgor o ystyried ei faint cymharol fach, a faint o gymorth gweinyddol sydd ei angen arno. Awgrymodd un ymateb y gellid gwella hyn trwy ddefnyddio corff allanol i asesu deisebau, neu hyd yn oed "banel dinasyddion".

Mynegodd llawer o'r ymatebion rwystredigaeth mewn cysylltiad â'r amser y mae'n ei gymryd i ymdrin â deisebau, ond roeddent yn cydnabod bod hwn yn fater sy'n gysylltiedig ag adnoddau. Gwnaeth un arall sylw ynghylch pa mor bwysig yw parhau i roi gwybod i ddeisebwyr am yr hyn sy'n digwydd gyda'u deiseb. O ran cyfathrebu, roedd un sylw yn annog y defnydd o BSL i gynorthwyo deisebwyr yn y broses.

Roedd nifer o ddeisebwyr yn teimlo y dylai'r Pwyllgor gael mwy o rym neu bŵer i achosi newid a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif. O ran un deisebydd, y Pwyllgor oedd un o'r ychydig iawn o ffyrdd o ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Galwodd un deisebydd am ffordd i ddeisebwyr allu apelio yn erbyn penderfyniadau i gau neu wrthod deisebau.

Mynegwyd rhywfaint o rwystredigaeth gan ddeisebwyr ynghylch yr ymatebion a gaiff y Pwyllgor gan Lywodraeth Cymru i ddeisebau.

1.11 A ddylai Pwyllgor Deisebau y Cynulliad fod â'r gallu i gyfeirio deisebau i'r Ombwdsmon pan fydd yn credu bod sail iddo ymchwilio?

Roedd y gefnogaeth i'r cynnig hwn bron â bod yn unfrydol. Awgrymodd un ymateb y gallai unrhyw waith gan y Pwyllgor ddarparu tystiolaeth bellach i'r Ombwdsmon ei hystyried. Roedd nodyn o rybudd, fodd bynnag, gydag un deisebydd yn awgrymu y gallai hyn arwain at rywfaint o ddryswch ymysg y cyhoedd o ran deall pa gorff sy'n gyfrifol ac yn atebol.

1.12 A ddylai'r Pwyllgor Deisebau fod â'r gallu i gyfeirio deisebau at sefydliadau a swyddfeydd eraill, fel y Comisiynydd Plant, y Comisiynydd Pobl Hŷn a Chomisiynydd y Gymraeg, er mwyn iddynt hwy ymchwilio a chyflwyno adroddiad?

Cafodd y cynnig hwn hefyd gefnogaeth y mwyafrif, er bod rhywfaint o anghytuno. Teimlai un deisebydd bod hyn y tu hwnt i gylch gwaith y Pwyllgor. Teimlai un arall y byddai'n dibynnu ar bwerau'r sefydliadau a'r swyddogion hyn.



Jonathan Baxter, estyniad 6295, jonathan.baxter@cynulliad.cymru

1.13 Fel rhywun sydd wedi cyflwyno deiseb, sydd wedi, neu sydd wrthi'n cael ei hystyried gan y Pwyllgor Deisebau, byddem yn hoffi gwybod mwy am eich profiad. A oeddech yn teimlo ei fod yn werthfawr? Beth weithiodd yn dda; beth nad oedd yn gweithio cystal? Pa newidiadau yr hoffech eu gweld o ran sut y mae deisebau yn cael eu hystyried?

Cafwyd amrywiaeth eang o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roeddent yn gadarnhaol, ar y cyfan, gan dynnu sylw at nifer o feysydd posibl i wella arnynt.

Disgrifiad un deisebydd oedd o gael profiad gwerth chweil, gan ychwanegu'r farn bod y staff wedi gwneud gwaith ardderchog yn ei helpu i gyflwyno'r ddeiseb a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am statws y ddeiseb. Dywedodd un arall fod y broses yn syml, effeithlon a gwerth chweil o ran codi ymwybyddiaeth am fater penodol. Cafodd y Pwyllgor ei ddisgrifio gan un deisebydd fel democratiaeth ar waith mewn ffordd y gall unrhyw ddinesydd ymgysylltu. Roedd llawer o sylwadau yn cymeradwyo ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor.

Fodd bynnag, roedd rhai ymatebion yn fwy beirniadol, gyda llawer ohonynt yn atgyfnerthu sylwadau a wnaed yn gynharach yn yr ymgynghoriad. Er enghraifft, pwerau'r Pwyllgor; yr amser a gymerwyd i ymdrin â deisebau; yr hyn sy'n ymddangos fel biwrocratiaeth y broses (gan gynnwys, yn arbennig, y penderfyniadau ynghylch derbynioldeb); ac a yw'r system ddeisebau yn chwarae rôl o ran dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Nid oedd un deisebwr yn ymwybodol o'r hyn oedd yn digwydd i'r ddeiseb a gyflwynodd, ac roedd yn gweld bai am hyn ar adnoddau'r Pwyllgor.

Roedd deisebydd arall yn feirniadol o'r hyn y mae'n ei weld fel ffafrio coridor yr M4, gan alw am amseroedd cyfarfod mwy hwylus i deuluoedd a oedd yn ystyried teithio o ogledd a chanolbarth Cymru.

Roedd un deisebydd yn teimlo'n ansicr ynghylch yr hyn a gyflawnodd ei ddeiseb. Er bod dadl wedi'i chynnal yn y Cyfarfod Llawn, ychydig iawn o Aelodau oedd yn y Siambr mewn gwirionedd. Roedd yr un deisebydd yn galw am broffil uwch i'r Pwyllgor ar y cyfryngau cymdeithasol.

Awgrymwyd y dylai deisebwyr allu annerch y Pwyllgor fel mater o arfer pan fydd eu deisebau yn cael eu cyflwyno.



Jonathan Baxter, estyniad 6295, jonathan.baxter@cynulliad.cymru

## 2. Ymatebion gan randdeiliaid

Daeth 10 o ymatebion gan randdeiliaid i law'r Pwyllgor. Ymatebodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru a Chomisiynydd Plant Cymru (y Comisiynwyr) ar y cyd i'r ymgynghoriad.

### 2.1 Ai sefydlu Pwyllgor Deisebau yw'r ffordd orau o sicrhau bod deisebau yn cael sylw priodol? A yw maint a chyfansoddiad y Pwyllgor yn addas i'w rôl?

Roedd tri rhanddeiliad yn mynd i'r afael â'r cwestiwn hwn yn uniongyrchol ac roedd cefnogaeth eang dros gael Pwyllgor Deisebau.

Roedd y Comisiynwyr yn ystyried gwaith y Pwyllgor yn ganolog i rymuso dinasyddion Cymru â llais ac yn ystyried y Pwyllgor fel y llwyfan gorau ar gyfer deisebau sydd i'w hystyried. Awgrymwyd y gallai cynnydd mewn aelodaeth helpu'r Pwyllgor gyda natur eang deisebau.

### 2.2 A oes angen mwy o eglurder ynghylch priod ffurf deisebau, ynteu a yw'r trefniadau presennol yn ddigonol?

Cafwyd sylwadau gan bedwar rhanddeiliad mewn perthynas â'r cwestiwn hwn.

Tynnodd Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent sylw at y ffordd y mae'n ymdrin â deisebau lleol a gyflwynir iddo, a sut mae maint y ddeiseb yn llywio'r ymateb. Awgrymodd hefyd y dylid cael canllawiau gam wrth gam ar gyfer deisebwyr. Roedd Cyngor Sir y Fflint o'r farn y dylid cael canllawiau cliriach o ran ffurf deisebau, gan gynnwys ar yr hyn sy'n dderbyniol a'r hyn nad yw'n dderbyniol. Roedd o'r farn y gallai hyn ddatrys heriau posibl deisebwyr i dderbynioldeb.

Roedd y Comisiynwyr o'r farn bod y trefniadau presennol yn darparu lefel o hyblygrwydd, gan bwysleisio pa mor bwysig yw bod deisebwyr yn nodi eu hachosion yn eu geiriau eu hunain. Roedd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) o'r farn bod y trefniadau presennol yn ddigonol i sicrhau y gellir codi materion heb fawr o rwystr.

Dywedodd Conffederasiwn GIG Cymru y gellid gwneud mwy i godi ymwybyddiaeth o'r canllawiau a'r cymorth sydd ar gael i ddeisebwyr, a gallai gwefan y Pwyllgor fod yn fwy defnyddiol.



Jonathan Baxter, estyniad 6295, jonathan.baxter@cynulliad.cymru
Rhif Cyfeirnod y Gwasanaeth Ymchwil: 15/2051

2.3 A yw'r nifer ofynnol bresennol ar gyfer llofnodion (10) i ddeiseb yn rhy uchel, yn rhy isel neu yn iawn? A ddylai fod rhaid i sefydliadau hefyd gyrraedd nifer ofynnol y llofnodion (pa lefel bynnag y bo)? Os bydd y nifer ofynnol ar gyfer sefydliadau yn parhau i fod yn wahanol, a oes angen defnyddio diffiniad mwy cadarn o beth yw sefydliad?

Gwnaeth saith o randdeiliaid sylwadau ar y cwestiwn hwn.

Roedd dau awdurdod lleol, a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn teimlo bod y trothwy presennol yn rhy isel. Awgrymodd Sir y Fflint y byddai 1,000 o lofnodion yn drothwy mwy priodol ac y dylai hefyd fod yn berthnasol i sefydliadau. Tynnodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) sylw at y trothwy ar gyfer deisebau awdurdodau lleol Caerdydd ac Abertawe, sef 50 a 30 yn y drefn honno. Yn Norfolk, lle mae'r boblogaeth yn 850,000, y trothwy ar gyfer deiseb i gael ei thrafod yn y Cyngor yw 5,000. Mae CLlLC yn awgrymu bod y system bresennol yn caniatáu i ddeisebau fynd ymlaen hyd yn oed er ei bod yn ymddangos nad oes cefnogaeth y cyhoedd iddynt ac nad ydynt bob amser yn seiliedig ar realiti ariannol. Teimla Conffederasiwn GIG Cymru, hefyd, bod y trothwy yn rhy isel, gan awgrymu 100 fel isafswm newydd, ond gyda'r gallu i ystyried deisebau gyda llai o gefnogaeth ar sail achosion unigol. Roedd yn teimlo nad oedd unrhyw sail resymegol glir ar gyfer trin sefydliadau yn wahanol i unigolion, ac awgrymodd na ddylai sefydliadau gynnwys grwpiau anffurfiol.

Fodd bynnag, roedd safbwyntiau eraill hefyd. Roedd y Comisiynwyr yn ystyried y trothwy cyfredol (10) yn isafswm rhesymol. Awgrymwyd ganddynt y gallai trothwy uwch olygu na allai unigolion, grwpiau a chymunedau ddwyn materion sy'n peri pryder i sylw'r Cynulliad, hyd yn oed os nad ydynt yn ymddangos fel bod cefnogaeth eang neu dorfol iddynt. Awgrymwyd ganddynt, felly, y dylid cael cysondeb o ran y trothwy ar gyfer sefydliadau ac unigolion.

Roedd yr RSPCA o'r farn mai un o gryfderau nodedig y system oedd y trothwy, gan ei fod yn caniatáu i nifer fechan o bobl dynnu sylw at bryder, hyd yn oed pan nad yw'n uchel ar yr agenda wleidyddol.

Roedd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru hefyd yn cefnogi'r trothwyon presennol, gan rybuddio yn erbyn diffinio corff yn rhy gaeth. Roedd o'r farn fod eglurder yn y diffiniad yn aml yn ddefnyddiol, y byddai'n gweld perygl posibl wrth sefydlu diffiniad rhy llym a allai eithrio rhai sefydliadau'n anfwriadol rhag cael eu trin yn gyfartal.

2.4 Ai dim ond deisebau sy’n ymwneud â materion lle mae gan y Cynulliad neu Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb y dylai’r Cynulliad barhau i’w hystyried?

2.5 A ddylai'r Cynulliad ystyried deisebau ar faterion y mae awdurdodau lleol unigol yn bennaf gyfrifol amdanynt? A oes cyfrifoldebau awdurdodau lleol y dylid caniatáu deisebau yn eu cylch?

2.6 A ddylai'r Cynulliad barhau i ystyried deisebau ar faterion y mae gan gyrff cyhoeddus (ac eithrio awdurdodau lleol) gyfrifoldeb bob dydd drostynt? A oes cyrff cyhoeddus y dylid eu trin yn wahanol (e.e. byrddau iechyd lleol)?

Roedd llawer o'r rhanddeiliaid a ymatebodd i'r ymgynghoriad wedi gwneud sylwadau ar gwestiynau 4, 5 a 6. Caiff yr ymatebion hyn eu hystyried gyda'i gilydd isod.

Cafwyd cefnogaeth gref gan awdurdodau lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i bolisi presennol y Pwyllgor o beidio ystyried materion y mae awdurdodau lleol yn gyfrifol amdanynt. Gwnaeth y Gymdeithas bwynt a gefnogwyd gan rai rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, bod awdurdodau lleol yn atebol yn ddemocrataidd i'w hetholwyr. Awgrymodd Conwy y gallai deisebau o'r fath gael eu cyfeirio at yr awdurdod lleol priodol. Fodd bynnag, nid oedd cefnogaeth geffredinol i'r farn hon. Galwodd Conffederasiwn GIG Cymru ar i ddeisebau sy'n effeithio ar awdurdodau lleol gael eu trin yn yr un modd â'r rhai sy'n effeithio ar y Fyrddau Iechyd Lleol, yn enwedig lle maent yn effeithio ar ailgynllunio gwasanaethau. Roedd hefyd yn teimlo bod y cyfle i ddeisebwyr godi pryderon gyda'r Cynulliad ynghylch swyddogaethau y mae'r awdurdod lleol yn gyfrifol amdanynt, yn gyfle i ddeisebwyr fynegi barn ac yn rhan bwysig o'r broses ddemocrataidd.

Er bod cefnogaeth gyffredinol i'r Pwyllgor barhau i ystyried deisebau y mae cyrff cyhoeddus eraill yn gyfrifol amdanynt, awgrymodd Conffederasiwn GIG Cymru y gellid ystyried y ddeiseb mewn ffordd fwy integredig. Er enghraifft, pan fydd pwyllgor pwnc yn ystyried materion sy'n ymwneud â deiseb fel rhan o ymchwiliad ehangach. Awgrymodd, hefyd y gellid cyfeirio deisebwyr at adroddiadau i ymchwiliadau sydd eisoes wedi'u cwblhau.

Awgrymodd Conffederasiwn GIG Cymru gallai fod rhai achosion lle y dylai deiseb mewn perthynas â materion nad yw'r Cynulliad neu Lywodraeth Cymru yn gyfrifol amdanynt, gael ei hystyried, beth bynnag. Un enghraifft a roddwyd ganddynt oedd materion trawsffiniol, fel person sy'n cael triniaeth feddygol yn Lloegr, ond sy'n byw yng Nghymru.

Gwelodd y Comisiynwyr fod gorgyffwrdd a diffyg eglurder ynghylch atebolrwydd y gwahanol haenau o lywodraeth, ac felly'n teimlo y dylai'r Pwyllgor roi diwydrwydd dyladwy i bob deiseb a allai fod o ddiddordeb i waith y Cynulliad.

Gwelodd yr RSPCA rôl iddi hi ei hun o ran addysgu ei haelodau ynghylch y cyfrifoldeb cyfreithiol mewn perthynas â lles anifeiliaid.

## 2.7 A ddylai'r Cynulliad ystyried deisebau sy'n debyg iawn i rai sy'n cael eu hystyried neu sydd wedi cael eu hystyried yn ddiweddar?

Roedd gan bump o'r ymatebwyr sylwadau ynghylch a ddylai'r Pwyllgor fod yn ystyried deisebau tebyg i rai mae wedi eu hystyried yn flaenorol. Dywedodd pedwar o'r pump na ddylai'r Pwyllgor ystyried deisebau tebyg i rhai cyfredol. Roedd Conffederasiwn GIG Cymru o'r farn bod y dull presennol yn briodol ac yn atal dyblygu diangen. Aeth ymlaen i awgrymu y dylai 12 mis fod wedi mynd heibio cyn ystyried deiseb debyg.

Cyflwynodd yr RSPCA farn wahanol. Roedd yn teimlo bod y trefniadau presennol yn rhy gaeth. Rhoddodd enghraifft o ddeiseb y mae'n ei hystyried i roi terfyn ar ladd heb stynio yng Nghymru a oedd yn annerbyniadwy gan fod y Pwyllgor Deisebau eisoes yn ystyried deiseb ar yr un pwnc. Roedd o'r farn y gallai digwyddiad cysylltiedig â'r pwnc, newid y farn gyhoeddus neu y gallai polisi Llywodraeth Cymru newid ar ôl i'r ddeiseb honno gael ei chyflwyno. Fodd bynnag, mae'r modd sydd gan y Pwyllgor Deisebau o ail-godi'r mater wedi'i rwystro, i bob pwrpas, am o leiaf ddeuddeg mis.

## 2.8 A ddylai'r Cynulliad barhau i gyhoeddi deisebau annerbyniadwy yn rheolaidd?

Roedd y pum randdeiliad a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn cefnogi cyhoeddi rhestrau cyfnodol o ddeisebau annerbyniadwy. Dywedodd y Comisiynwyr a Chonffederasiwn y GIG mai dyma'r trefniant mwyaf agored a thryloyw. Dywedodd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru fod cyhoeddi deisebau annerbyniadwy yn ddefnyddiol i'r rhai sy'n ystyried cyflwyno deiseb, fel arwydd defnyddiol o gymhwystra.

## 2.9 A oes angen newid Rheolau Sefydlog y Cynulliad mewn perthynas â'r Pwyllgor Deisebau?

Cafwyd ymatebion cymysg i'r cwestiwn hwn.

Teimlai CLILC fod y gweithdrefnau a'r prosesau presennol yn ymddangos yn effeithiol ar y cyfan. Awgrymodd y Comisiynwyr y gallai diwygio'r Rheolau Sefydlog ragnodi pryd y dylai dadl ddigwydd, er enghraifft pan fyddai trothwy wedi'i fodloni. Maent yn tynnu sylw at yr angen am ddadl yn San Steffan, lle mae e-ddeiseb yn casglu 100,000 o lofnodion.

Teimlad Conffederasiwn GIG Cymru oedd fod y Rheolau Sefydlog, ar y cyfan, yn briodol, ond mae rhai o'r pwerau yn eang iawn. Er enghraifft, i'r Pwyllgor "gymryd unrhyw gamau eraill y mae’r pwyllgor yn credu eu bod yn briodol." Mae'n awgrymu gwneud rhai cyfyngiadau ar y pwerau dirprwyedig a darparu rhai camau y dylai Llywodraeth Cymru neu Bwyllgor arall y Cynulliad Cenedlaethol ymrwymo iddynt i ymateb i'r Pwyllgor Deisebau.

### 2.10 Pa newidiadau y gellid eu gwneud i'r ffordd y mae'r Pwyllgor Deisebau yn ymdrin â deisebau er mwyn sicrhau gwell canlyniadau i ddeisebwyr neu ystyriaeth fwy effeithiol o'r deisebau?

Awgrymodd Conffederasiwn GIG Cymru y byddai rhagor o dystiolaeth lafar o gymorth i'r pwyllgor ystyried deisebau yn fwy manwl.

Roedd Cyngor Tref Cas-gwent yn feirniadol o ymateb Llywodraeth Cymru i ddeiseb a gododd. Mae'n awgrymu bod angen rhagor o gadernid ar y Pwyllgor, a gweithdrefn y gall ei defnyddio i alw'r Gweinidog i gyfrif. Mae'n yn awgrymu y dylid gosod rhyw fath o sancsiynau ar Weinidogion pe bai'r Pwyllgor yn anfodlon ag ymateb y Gweinidog.

Pwysleisiodd Sir y Fflint a'r Comisiynwyr pa mor bwysig yw ymdrin â deisebau mewn ffordd agored a thryloyw. Awgrymodd y Comisiynwyr hefyd y dylai hyn gynnwys adborth i'r deisebwyr a galwyd hefyd ar i'r Pwyllgor barhau i ystyried deisebau ar-lein a deisebau papur. Gallai unrhyw symudiad tuag at dderbyn dim ond deisebau ar-lein gael effaith negyddol ar bobl hŷn, gan fod llawer ohonynt nad ydynt yn defnyddio'r rhyngrwyd.

Mae'r RSPCA yn awgrymu y dylai'r Pwyllgor ystyried ystod o ddulliau wrth ymdrin â deisebau, yn ogystal ag ysgrifennu at y Gweinidog. Mae'n cefnogi cynnal ymchwiliadau byr, cynnal ymgynghoriadau a phleidleisio, hyd yn oed.

Mae CLlLC yn awgrymu cynnal adolygiad o effaith a chanlyniadau deisebau a dderbynnir o ran gallu ac adnoddau'r Pwyllgor. Mae'n tynnu sylw at adran "Canlyniadau Deisebau" Senedd yr Alban ar ei wefan ac yn awgrymu y dylai'r Pwyllgor hefyd ystyried astudiaethau achos o ddeisebau dylanwadol a llwyddiannus i helpu i hyrwyddo'r broses ddeisebu. Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn pwysleisio pa mor bwysig yw gwneud deisebwyr yn ymwybodol o ganlyniadau eu deiseb.

Mae Conffederasiwn GIG Cymru yn awgrymu y dylai deisebwyr allu dangos pa gamau y maent wedi'u cymryd yn lleol i geisio datrys y mater yn y ddeiseb. Mae'n trafod hyn yn arbennig o ran newid gwasanaethau o fewn y GIG ac yn dweud ei bod yn bwysig bod deisebwyr yn ymwybodol o'r broses y mae Byrddau Iechyd Lleol wedi mynd drwyddi cyn cysylltu â'r Pwyllgor Deisebau. Bydd hyn, meddai, wedi cynnwys gwaith ymgysylltu â chymunedau yr effeithir arnynt.

Mae hefyd yn awgrymu rhyw ddull o flaenoriaethu deisebau ac i'r Pwyllgor weithio'n agosach gyda thîm Allgymorth y Cynulliad i ymgysylltu â'r cyhoedd.

### 2.11 A ddylai'r Pwyllgor Deisebau allu cyfeirio deisebau i'r Ombwdsmon neu i ddeiliaid swyddi tebyg, lle mae'n credu bod sail iddynt ymchwilio?

Ymatebodd chwe randdeiliad i'r cwestiwn hwn. Roedd pob un yn cytuno y byddai hyn yn syniad da. Roedd rhai pryderon gan y Comisiynydd Pobl Hŷn a'r Comisiynydd Plant y gallai

cyfeirio godi disgwyliadau deisebwyr. Awgrymwyd deialog agored rhwng y Pwyllgor a'r Comisiynwyr. Awgrymwyd hefyd y gellid gwneud mwy gan y Pwyllgor i wneud deisebwyr yn ymwybodol o ffyrdd eraill i ddatrys eu cwynion, fel eu cyfeirio at y corff rheoleiddio mwyaf priodol.

Cydnabu Comisiynydd y Gymraeg y gallai'r Pwyllgor gyfeirio materion a oedd yn berthnasol i'w swyddogaethau ati hi.

### 2.12 Pryd y dylid cau deiseb na ellir mynd ymhellach â hi? A ddylai deiseb aros ar agor cyhyd ag y mae'r mater a godwyd ganddi heb ei ddatrys, neu a ddylid ei chau cyn gynted ag y mae'n amlwg na ellir mynd ymhellach â hi?

Roedd pedwar ymateb yn ymdrin â chwestiwn 12.

Awgrymodd tri ymateb y dylid cau deisebau cyn gynted ag y daw'n amlwg nad oes modd eu datrys. Mae Conffederasiwn GIG Cymru yn cydnabod y gall fod rhywfaint o fudd i gadw golwg ar ddeiseb, ond mae'n awgrymu y dylid ei chau ar ôl blwyddyn gan y bydd rhai agweddau ar y ddeiseb yn debygol o fod wedi newid ers iddi gael ei chyflwyno.

Awgrymodd y Comisiynwyr gadw'r trefniadau fel y maent.

### 2.13 A ddylid ystyried deisebau a gasglwyd ar wefannau trydydd parti (e.e. change.org neu 38degrees.org) yn yr un modd ag y mae deisebau a gesglir ar wefan y Cynulliad neu ar bapur? A ddylai deiseb gasglu llofnodion o fewn cyfnod penodol, gan 'fethu' os eir y tu hwnt iddo?

Roedd pump ymateb yn mynd i'r afael â'r cwestiwn hwn.

Cafwyd barn gymysg ynghylch a ddylai deisebau ar safleoedd trydydd parti gael eu derbyn. Roedd y Comisiynwyr yn cefnogi'r farn hon, fel roedd yr RSPCA. Rhoddodd yr RSPCA enghraifft o ddeiseb sydd ganddi ar hyn o bryd ar ei gwefan, a'r anawsterau ymarferol o ran cysylltu hynny â system ddeisebau'r Cynulliad. Awgrymodd Conffederasiwn GIG Cymru a Sir y Fflint y dylid ei gyfyngu i wefan y Cynulliad ei hun. Awgrymodd Blaenau Gwent y dylai fod yn dderbyniol os yw'n bodloni meini prawf deisebau'r Cynulliad ei hun.

Awgrymodd llawer o randdeiliaid bod 8 wythnos yn gyfnod priodol o amser i ddeiseb aros ar agor.

### 2.14 Pwy ddylai fod yn gallu cyflwyno ac arwyddo deisebau? A ddylai fod unrhyw gyfyngiad o ran preswyliaeth neu oed? A ddylai staff sy'n gweithio i Aelodau'r Cynulliad neu'r Cynulliad ei hun allu cyflwyno deisebau? A ddylai pleidiau gwleidyddol gael eu hatal rhag cyflwyno deisebau?

Aeth pump o randdeiliaid i'r afael â'r cwestiwn hwn.



Jonathan Baxter, estyniad 6295, jonathan.baxter@cynulliad.cymru

Cafwyd barn gymysg ynghylch pwy ddylai allu cyflwyno deisebau. Teimlad Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, ynghyd â Chonffederasiwn GIG Cymru, oedd y dylai deisebwyr fod yn byw yng Nghymru. Roedd gan yr RSPCA hefyd rywfaint o gydymdeimlad â'r safbwynt hwn. Tynnodd y Gymdeithas sylw at anghysondeb tybiedig, gan nad yw'r Pwyllgor ond yn derbyn deisebau ar faterion datganoledig, ond ei fod yn derbyn llofnodion gan y rhai nad ydynt yn byw o dan awdurdodaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Teimlai Sir y Fflint mai dim ond gan y rhai sy'n byw yn y DU y dylai deisebau ddod, a barn y Comisiynwyr oedd bod y trefniadau presennol yn ddigonol.

Daeth yr unig sylwadau ar gyfyngiad oedran posibl gan y Comisiynwyr a oedd yn gwrthwynebu unrhyw gyfyngiadau.

Teimlai Blaenau Gwent na ddylai staff sy'n gweithio i Aelodau'r Cynulliad a'r Cynulliad ei hun allu cyflwyno neu arwyddo deisebau. Teimlai hefyd y dylai pleidiau gwleidyddol gael eu hatal rhag cyflwyno neu lofnodi deisebau. Ategwyd y safbwyntiau hyn gan Sir y Fflint a Chonffederasiwn GIG Cymru.

### 2.15 A ddylai fod mecanwaith ar gyfer atal deisebau yr ystyrir eu bod yn camddefnyddio'r broses?

Atebodd tri rhanddeiliad y cwestiwn hwn a chytunodd pawb y dylid cael rhyw ddull o ymdrin â'r mathau hyn o ddeisebau.



Jonathan Baxter, estyniad 6295, jonathan.baxter@cynulliad.cymru

Rhif Cyfeirnod y Gwasanaeth Ymchwil: 15/2051